# SL(5)669 – Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018") er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddau offeryn statudol:

- Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("yr OS Brexit cyntaf").
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("yr ail OS Brexit").

Gwnaeth yr OS Brexit cyntaf a'r ail OS Brexit ddiwygiadau amrywiol i ddeddfwriaeth sy'n ymdrin ag asesiadau effaith amgylcheddol a chynllunio gwlad a thref i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, ac aethant i'r afael â diffygion mewn deddfwriaeth ddomestig yn deillio o ymadael â'r UE. Hefyd, gwnaeth yr OS Brexit cyntaf fân ddiwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol yn deillio o ofynion yr UE.

Mae'r diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn yn adlewyrchu'r cyfnod pontio yn Erthygl 127 o'r Cytundeb Ymadael. Bydd cyfeiriadau at 31 Ionawr 2020, sydd ar hyn o bryd yn darllen "diwrnod ymadael", yn cael eu newid i "Diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu" gan gyfeirio at 11pm ar 31 Rhagfyr 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai'r weithdrefn negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**1 Rhagfyr 2020**